

*“Gyda’n gilydd cymaint mwy”*



## **Adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr i rieni**



**Ysgol Yr Hendy 2017-18**

Annwyl Riant, Gwarchodwr,



Mae'n bleser gan y Llywodraethwyr i adrodd nol am flwyddyn brysur a llwyddiannus arall. Rydym yn ffodus o gael Corff Llywodraethol sydd yn meddu ar ystod eang o sgiliau a phrofiad ac sydd hefyd yn cyd- weithio'n agos gyda'r Pennaeth a'r Staff er mwyn sicrhau fod Ysgol Yr Hendy yn cynnig yr addysg orau i'r disgyblion. Bob blwyddyn ein blaenoriaeth yw i adeiladu ar ein llwyddiannau, i adnabod ein gwendidau ac i baratoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod ein hysgol yn parhau i wella ac i symud ymlaen. Mae'r Llywodraethwyr yn gweithio'n agos gyda ein tim o staff ymroddedig er mwyn adolygu a gwerthuso cynnydd yr ysgol ac i ystyried blaenoriaethau'r dyfodol. Mae'r llywodraethwyr yn cadw golwg fanwl ar yr amrywiol bolisiau sydd yn galluogi'r ysgol i gyrraedd nodau ac amcanion penodedig. Gwerthfawroga'r llywodraethwyr barodrwydd y staff i ymgymryd a chyfleoedd hyfforddiant ychwanegol sydd yn cyfoethogi bywyd ysgol.

Rydym yn ffodus iawn i dderbyn cefnogaeth oddi wrth CRA ardderchog ac ystyriwn fod yr ystod o adnoddau a welir yn yr ysgol yn deillio o'i gwaith caled, ymroddedig a'i ymdrech di-flino wrth godi arian. Rydym yn dra diolchgar i'r aelodau hynny sydd yn roi gwasanaeth gwirfoddol i'r ysgol. Mae eu cyfraniad yn hyrwyddo addysg y plant bob amser.

Hyderaf yr ystyriwch yr adroddiad hwn i fod yn ddiddorol.

*Mr Gareth Beynon Thomas*  
*Cadeirydd Ysgol yr Hendy*

### **PROSPECTWS YR YSGOL**

Adolygwyd a diweddarwyd prospectws yr ysgol yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017-18. Diolch i'r plant, i rieni, i staff ac i'r llywodraethwyr am eu cyfraniadau. Mae copiau ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr ysgol.

### **RHIF CYFFREDINOL MYNEDIAD**

Y rhif cyffredinol mynediad ar gyfer Ysgol Yr Hendy yw 24

### **AMSEROEDD YSGOL (Blwyddyn academaidd 2017-18)**

<b>Sesiynau Bore</b>	<b>Sesiynau Prynhawn</b>
Babannod : 9.00 – 12.00.	1.00– 3.15.
Iau: 9.0 – 12.15	1.00 –3.15

**Staffio:****UWCH DIM RHEOLI**

MRS R KENNY	PENNAETH
MR. N. DAVIES	DIRPRWY BENNAETH
MISS E MORRIS	ARWEINYDD Y CYFNOD SYLFAEN
MRS S LLOYD	CYMRAEG/ASESU

**DOSBARTHADAU:**

<b>ATHRO</b>	<b>DOSBARTH</b>
MRS N FOWLER MRS L MATHIAS	MEITHRIN
MISS E MORRIS	DERBYN (A)
MRS MRS. V DAVIES	DERBYN, BLWYDDYN 1 a 2 (B)
MISS NICKLIN	BLWYDDYN 1-2 (A)
MRS. LLOYD	BLWYDDYN 3-4 (A)
MRS. DELLOW / MISS LONGMAN	BLWYDDYN 3-4 (B)
MR BATCUP	BLWYDDYN 5/6 (A)
MR. DAVIES	BLWYDDYN 5/6 (B)
MRS RACHEL DAVIES	CYDLYNYDD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL AC ATHRAWES CPA

**SWYDDOG GWEINYDDOL: MRS S ELIAS****STAFF CYNORTHWYOL**

LEARNING INTERVENTION CYNORTHWYWYR CEFNOGI	MRS L. MATHIAS, MRS N. BATCUP
CYNORTHWYWYR DYSGU (CYFNOD SYLFAEN )	MISS RYANMRS C TAYLOR MRS. K PRITCHARD, MISS. M DANGELO
CYNORTHWYWYR DYSGU (ADDYSG ARBENNIG)	MRS. T GROVES MR Rh LEWIS.
GOFALYDD	MRS. K. PRITCHARD
GLANHAWYR	MRS T. SPERKA/ MRS. T.REES

COGYDD	MRS S. LEWIS
IS- GOGYDD	MRS D DAVIES
SWYDDOG GWEINYDDOL (PRYDAU YSGOL)	MRS A STARR
STAFF Y GEGIN	MRS. T WILLIAMS
CROESWR PLANT	MR. P THOMAS

### **LLYWODRAETHWYR YR YSGOL**

CLLR. GARETH BEYNON-THOMAS (CHAIRPERSON)	ALI
DR. ALLAN EVANS (VICE CHAIRPERSON)	ALI
MRS KAREN TAYLOR	ALI
PCSO STEPHEN LLOYD	CYMUNED
MR ROBERT CROFT	CYMUNED
DR. BYRON EVANS	CYMUNED
MR STUART EVANS	CYMUNED
DR. MARK LLEWELLYN	RHIANT
MRS JSARA GUTTERIDGE	RHIANT
MRS BETHAN THOMAS	RHIANT
MRS RUTH TAYLOR-DAVIES	RHIANT
MR NICK DAVIES	ATHRO
MRS L MATHIAS	STAFF

**Enw'r Ysgol: Ysgol yr Hendy**  
**Cyfnod yr Adroddiad: Medi 2016 – Gorffennaf 2017**  
**Nifer y plant ar y gofrestr: 187 (Gorffennaf 2017)**



### **Data presenoldeb plant 2017-18**

Cyfanswm ein presenoldeb oedd 92.9% gyda 0.5% obresenoldebau heb ganiatad. Bu 0.00% gwaharddiad dros dro yn ystod y flwyddyn.

Ein targed presenoldeb dros y flwyddyn oedd 94.5%. Targed y Cynulliad Cenedlaethol oedd 95%. Ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf bwriadwn wella ein presenoldeb a chyrraedd o leiaf 94.5%.

**Sylwer y cofnodir pob cofrestr yn electronig ac os na welir adroddiad am absenoldeb, yna bydd yr ysgol yn cysylltu gyda riant er mwyn cael esboniad am absenoldeb y plentyn. Mae'n hanfodol i rieni i gysylltu gyda'r ysgol os oes absenoldeb.**

**Gwyliau – Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn rhoi'r pŵer yn ôl disgrisiwn i benaethiaid awdurdodi gwyliau teuluol yn ystod y tymor, mewn achosion lle bydd y rhieni'n gofyn am ganiatâd. Heblaw am amgylchiadau eithriadol, ni ddylid rhoi mwy na 10 niwrnod ar gyfer gwyliau o'r fath.**

### **Penderfyniadau**

Ni chafwyd yr un penderfyniad yn y cyfarfod y llynedd am fod neb wedi gofyn am gyfarfod.

### **Cynllun Datblygu Ysgol**

Mae'r Llywodraethwyr (ynghyd â staff yr ysgol) yn gyfrifol am greu Cynllun Datblygu Ysgol. Mae'r cynllun yn nodi'r cyfeiriad y bydd yr ysgol yn anelu tuag at dros gyfnod o dair mlynedd wrth weithredu'r cwricwlwm. Caiff y cynllun ei wirio'n rheolaidd a'i adolygu gan ystyried cynnydd yr ysgol ac unrhyw newidiadau sydd yng ngofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Cyflwynwyd y cynllun datblygu i'r llywodraethwyr yn ystod Tymor Yr Hydref 2016.

### **Blaenoriaethau Datblygu'r Ysgol yn ystod 2017- 18**

- Darllen: sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd deilliant 5 (Cyfnod Sylfaen ) a lefel 4 (Cyfnod Allweddol 2)
- Sicrhau bod y mwyafrif o ddisgyblion mwy abl a thalentog yn cyrraedd 115+ yn y profion darllen Cenedlaethol
- Datblygu'r sgiliau annibynnol o bob dysgwr
- Defnyddia'r grant Amddifadedd er mwyn darparu ystod o gefnogaeth i'r disgyblion sydd yn derbyn prydiau am ddim.
- Paratoi a gweithio tuag at y marc safon e ddiogelwch
- Datblygu'r agwedd gnaliadwy o fewn y cwricwlwm
- Parahau i ddatblygu'r Cynllun Siarter Iaith ar draws yr ysgol

### **Safonau Dysgu ac Addysgu**

Bydd Cydlynwyr Pwnc, Arweinyddion Tim a'r Pennaeth yn adolygu safonau dysgu ac addysgu. Mae'r ysgol wedi gweithredu trefn systematig ar gyfer Rheoli Perfformiad.

Fel yn ystod y blynyddoedd cynt mae'r ysgol wedi derbyn cyllid oddi wrth GGY. Defnyddir y grant er mwyn cefnogi 'Datblygiad Proffesiynol' y staff ac ar gyfer datblygiadau arbennig a blaenoriaethau o fewn Cynllun Datblygu'r Ysgol.

### **Datblygu'r Cwricwlwm**

Nod yr ysgol yw darparu cwricwlwm cytbwys yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn ysgogi datblygiad addysgol, emosiynol a chymdeithasol pob plentyn yn unigol. Mae gweithdrefnau'r Cyfnod Sylfaen yn eu lle.

Defnyddir gweithdrefnau gwahaniaethol i ddatblygu potensial pob plentyn i'w lawn dwf. Rydym am gyrraedd y nod mewn amgylchedd bywiog, cartrefol, diddorol a chreadigol. Y mae modd gweld dogfennau a pholisïau'r ysgol ym mhob maes a phwnc, mae cynlluniau gwaith ym mhob maes pynciol ar waith hefyd - yn unol â chanllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Serch hyn, gan fod addysg yn prysur newid bron yn ddyddiol, mae'r polisïau a'r cynlluniau gwaith yma yn cael eu monitro a'u hadolygu'n barhaus.

### **Arolygiad Estyn**

Ymwelodd Estyn â'r ysgol yn Rhagfyr 2017. Derbyniodd yr ysgol adroddiad rhagorol ac mae copïau ar gael o'r swyddfa neu wefan yr ysgol.

### **Ymweliad ERW**

Ymwelodd ERW (Tim Gwella Ysgolion y Sir) â'r ysgol ym Medi 2017 Mis Chwefror 2017 a Mis Mehefin. Derbyniwyd categori cefnogaeth: Gwyrdd

### **Anghenion Dysgu Ychwanegol. (ADY)**

Cynhaliwyd arolwg blynyddol o anghenion addysgol pob plentyn yn unol a threfniadau asesu'r ysgol ynghyd a gofynion polisi yr Awdurdod Addysg, Caiff y plant sydd angen cymorth ychwanegol eu cynnwys ar rhestr Addysg Arbennig yr ysgol (17%). Gweithredir yn ôl gofynion:

- Gweithredu ysgol
- Gweithredu ysgol dwys
- Datganiad o Anghenion Addysgol

Cafodd pob plentyn oedd a datganiad adolygiad blynyddol a chafodd y cynnydd ei gofnodi ymhob achos.

Caiff y plant gymorth ychwanegol oddi wrth cynorthwywyr dysgu a fydd yn cefnogi'r plant mewn grwpiau bychain ac yn unigol. Caiff rhai plant eu tynnu allan o'r dosbarth er mwyn derbyn cymorth ychwanegol mewn grwpiau ymyrraeth bychain a gynhelir gan gynorthwywyr profiadol a chymwys.

Caiff Polisi Anghenion Addysg Arbennig yr ysgol ei adolygu a'i wirio'n gyson a chaiff yr athrawon a'r cynorthwywyr gyfleoedd i fynychu cyrsiau hyfforddi.

Caiff cynnydd pob plentyn ei fonitro'n agos a pharhaus yn ystod ei gyfnod/ei chyfnod yn Ysgol Yr Hendy. Os digwydd i'ch plentyn warantu cymorth ychwanegol byddwn yn hysbysu'r rhiant ac yn rhoi Cynllun Addysg Unigol mewn lle. Os bydd angen, byddwn yn cysylltu gydag asiantaethau allanol ar gyfer cymorth a chyngor ychwanegol. Mae llawer o blant sydd wedi derbyn cymorth ychwanegol yn ystod eu hamser yn Yr Hendy wedi gwneud cynnydd parhaus a chyson ac wedi derbyn marciau da yn yr asesiadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

## **Cydlynnydd Anghenion Arbennig – Mrs Rachel Davies**

### **Polisiau**

Bydd y Corff Llywodraethol yn adolygu yr holl bolisiau sydd yn berthnasol i'r ysgol yn eu tro. Gallwch holi i weld y polisiau.

### **Bwyta'n iach**

Mae'r ysgol yn rhan o gynllun 'Ysgolion Iach. Mae 'na ystod o ffrwythau i'w prynu o'r siop ysgol gan gynnwys dŵr. Mae dŵr ffres ar gael yn rhad ac am ddim. Diolch am eich cydweithrediad parhaus yn y maes hwn.

### **Categori Ieithyddol (Dwy Ffrwd)**

Mae'r ysgol hon yn ysgol dwy ffrwd. Gall rhieni ddewis derbyn y Cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg (Ffrwd Gymraeg) neu thrwy gyfrwng y Saesneg (Ffrwd Saesneg) Mae'r ddwy ffrwd yn cyd- dynnu ochr yn ochr yn yr ysgol.

### **Canlyniadau Asesu Statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol**

Gweinyddwyd Asesiadau Athro yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn ystod y flwyddyn ysgol hon. Mae'r tablau canlynol yn rhoi'r manylion am ganran y disgyblion lwyddodd i gyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yn yr ysgol hon. I gyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd rhaid i'r disgyblion gyrraedd o leiaf Deilliant 5 mewn Mathemateg, naill ai Cymraeg fel mamiaith neu Saesneg a Datblygiad Personol yn gyfunol yn y Cyfnod Sylfaen neu gyrraedd Lefel 4 yng Nghyfnod Allweddol 2 yn Saesneg neu Gymraeg (mam iaith) Gwyddoniaeth a Mathemateg. Gweler y canlyniadau ar ddiwedd yr adroddiad.

### **Cyfleoedd Cyfartal a Pholisi Cydraddoldeb Hiliol**

Mae'r polisi ar waith.

### **Mynediad i Blant Anabl, Adeiladau, Anabledd, Iechyd a Diogelwch**

Mae'r Corff Llywodraethol yn ymwybodol o ofynion cyfreithiol y deddfau sydd yn ymwneud ag anabledd, sef 'Disability Discrimination Act (DDA) 1995 and The Special Needs and Disability Act (SENDA) 2005' sydd yn sicrhau cyfartaledd a bod pob plentyn ac oedolyn yn gallu cael mynediad i bob man o fewn adeilad yr ysgol. Mae'r ysgol yn mynnu fod pob plentyn yn derbyn

cwricwlwm ysgol lawn ac yn cael y cyfle i fynychu clybiau ar ol ysgol, yn gallu mynychu digwyddiadau a gweithgareddau chwaraeon a hamdden ynghyd â mynd ar ymweliadau addysgol.

### **Adeiladau, Diogelwch, Iechyd a Diogelwch**

Gwneir pob ymdrech i gadw at y safonau disgwylidig ac i wella ansawdd yr adeilad.

Y Pennaeth sydd â chyfrifoldeb penodol dros ddiogelwch, ac os digwydd iddi fod yn absennol yna y dirprwy bennaeth Mr. Nicholas Davies fydd yn cymryd y cyfrifoldeb. PCSO Lloyd yw'r llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelwch.

Mae is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Llywodraethwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn dilyn y 'Polisi Iechyd a Diogelwch' er mwyn sicrhau diogelwch a lles ein plant. Mae hyn yn cynnwys arolygu'r ddarpariaeth ganlynol, sef y toiledau (cant eu glanhau yn ddyddiol) er mwyn sicrhau glendid a'u haddasrwydd, yr offer ymladd tân a'r drefn ymadael, ynghyd â darpariaeth cymorth cyntaf a diogelwch cyffredinol y plant a'r staff.

### **Hyfforddiant Mewn Swydd / Gweithgareddau min-nos**

Dilynodd y staff amryw o gyrсияu hyfforddiant mewn swydd. Rhoddwyd blaenoriaeth i hyfforddiant oedd yn deillio o flaenoriaethau a materion cenedlaethol.

Yn ogystal â chyd- weithio gydag ysgolion sydd yn perthyn i'n teulu yn ystod 2015-2016 dilynwyd amrywiaeth o gyrсияu.

- Cymorth Cyntaf
- Datblygwyd sgiliau digidol y staff ymhellach (Rob Walters ERW)
- Hyfforddiant : dosbarthiadau sydd yn hybu plant i gyfathrebu
- Hyfforddiant Epi Pen gan Carys Bryant nurs yr ysgol.
- Hyfforddiant : Trais yn y cartref (lefel 1 staff I gyd)
- Hyfforddiant Iechyd a Lles (staff)
- Sesiynau rhannu arfer dda Chatt
- Hyfforddiant rhifedd gyda Mrs Sian Wyn-Davies
- Cynhaliwyd cyfarfodydd staff min-nos o dan arweinyddiaeth yr Uwch Dim Rheoli er mwyn cefnogi staff wrth bennu lefelau ar ddarnau o waith ysgrifenedig yn y Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn sicrhau cysondeb wrth lefelu yn y ddwy ffrwd.

### **Cyrсияu a fynychwyd**

- Mae pob aelod o staff wedi mynychu cyrsiau sydd yn berthnasol i'r Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd.
- Mae Mrs C Taylor wedi bod yn llwyddiannus ar gwrs Gymraeg i ddysgwyr
- Mae Mrs Davies wedi bod yn llwyddiannus ar y hyfforddiant ar gyfer Anawsterau Dysgu Penodol
- Mae Mr Davies wedi mynychu cyrsiau perthnasol i'w rôl person penodedig diogelwch plant
- Mae Mrs Lloyd wedi mynychu cyrsiau perthnasol i'w swydd fel cydlynnydd llethrennedd Cymraeg



- Mae Miss Linda Nicklin wedi mynychu nifer o gyrsiau TGCH yn rhinwedd ei swydd fel Cyd-lynydd TGCh.
- Mae Miss Emma Morris wedi mynychu cyrsiau sydd yn berthnasol i'w swydd fel Arweinydd y Cyfnod Sylfaen.
- Mae Mrs V Davies wedi mynychu cyrsiau perthansol i'r Siarter Iaith.
- Mae Davies wedi dilyn cyrsiau sydd yn berthnasol i Addysg Arbennig wrth iddi fod yn ALNCO.
- Mae Mr Batcup wedi mynychu cyrsiau perthnasol i'w swydd fel cydlynydd Gwyddoniaeth.
- Mae pob aelod o staff wedi cyfrannu tuag at raglenni ar gyfer Cymunedau Dysgu Proffesiynol Strade a Bryngwyn.
- Mae Mrs Kenny wedi mynychu hyfforddiant diweddaraf Estyn a hyfforddiant sydd yn berthnasol i'r rol pennaeth.
- Mae Mrs Kenny a Mr Davies wedi mynychu hyfforddiant wrth Gareth Coombes 'Hunan-arfaniad effeithiol' a Tracey Jones ( hyfforddiant emosiynol)

### **Digwyddiadau Diddorol Pwrpasol.**

- Cyrhaeddodd y côr y rownd derfynol o'r cystadleuaeth Carol yr Wyl
- Cynhaliwyd y staff sesiynau triawd .
- Rhannwyd yr ysgol arfer dda yng Nghynadlaeth ERW (iechyd a lles)
- Rhannwyd yr ysgol arfer dda ar wefan Estyn (gwrth-fwlio)
- Bu'r Uwch Dim Rheoli yn monitor darllen
- Noson 'E' Ddiogelwch ar gyfer rhieni
- Noson rhifedd ar gyfer rhieni/gwarchodwyr

### **Cyngor Ysgol a Llais y Dysgwyr**

Yn ystod y flwyddyn academiaidd mae ein Cyngor Ysgol ymroddedig wedi bod yn allweddol wrth godi arian i'r ysgol ac ar gyfer achosion da amrywiol. Fel cydnabyddiaeth o'u gwaith caled cafodd yr aelodau eu gwobrwyo i fod yn Lysgenhadon Gwych unwaith eto.

Mae'r digwyddiadau a gynhaliwyd fel a ganlyn :-

- Crewyd fideo polisi gwrth-fwlio newydd
- Ail-grewyd polisi a fideo 'E Diogelwch.
- Codwyd arian ar gyfer ystod o elusennau
- Trefnwyd noson ffilmiau er mwyn codi arian ar gyfer cronfa'r ysgol.
- Rhoddwyd yr anerchiad yn y Noson Agored ar gyfer darpar rhieni.
- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ar ieuchyd emosiynol a lles i ysgolion eraill
- Derbyniodd Tom Llewellyn a Brogan Phillips hyfforddiant : llysgenhadon gwych

### **Grŵp.com**

Sefydlwyd Grŵp.com er mwyn rhoi cymorth digidol i'r staff a phlant.

### **Criw Cymraeg**

Sefydlwyd y Criw Cymraeg er mwyn hybu'r Gymraeg a Chymreictod ar draws yr ysgol.

### **Myfyrwyr/Profiad Gwaith**

Mae'r ysgol wedi croesawu nifer o fyfyrwyr o Goleg y Drindod, Coleg Sir Gâr a Choleg Castellnedd i gwblhau eu hymarfer dysgu. Hefyd, daw nifer o ddisgyblion o'r ysgolion gyfun lleol ar brofiad gwaith.

### **Ymweliadau addysgol a gweithgareddau amrywiol er mwyn cefnogi'r cwricwlwm a chryfhau ein cysylltiadau gyda'r gymuned.**

Mae gofal yn y gymuned yn ran bwysig o'r cwricwlwm ysgol. Rydym wedi cefnogi elusennau amrywiol sef :-

- Diwrnod Odd Socks (Down Syndrome)
- Comic Relief
- Plant Mewn Angen
- Codi arian er mwyn ddanfôn plant yng Nghenia i'r ysgol
- Cyngherddau ysgol a digwyddiadau. Gwahoddwyd rieni, gofawyr ac aelodau o'r gymuned i fynychu'r digwyddiadau hyn.
- Cymerodd y côr rhan mewn Gymanfa Ganu Yng Nghapel Hope Seilo a chynhaliwyd dathliadau Nadolig amrywiol yn y gymuned.
- Cymerodd y plant rhan yng Ngwasanaeth y Cofio yn Eglwys Llanedi.
- Cymerodd y côr rhan mewn nifer o weithgareddau yn y gymuned.
- Cymerodd y plant rhan yn Eisteddfod yr Urdd mewn nifer o gystadlaethau
- Aeth plant y Cyfnod Sylfaen i weld Cyngerdd Nadolig yr Ysgol Feithrin.
- Cymerodd y plant rhan yn Eisteddfod Yr Hendy.
- Cymerodd y plant rhan yng nghystadleuaeth ysgrifennu'r gan Bwyllgor y Carnifal.
- Cynhaliodd yr ysgol Noson 'E' Diogewlch aml-asiantaethol ar gyfer rhieni. Rhanodd y plant eu gwaith.
- Cynhaliodd yr ysgol Noson Rifedd ar gyfer rhieni. Rhanodd y plant eu gwaith.
- Cynhaliodd Blwyddyn 6 wasanaeth ymadael arbennig yn yr ysgol. Mwynhawyd y ffarwel emosiynol gan blant, rhieni, aelodau o'r teulu a staff.
- Cynhaliodd yr ysgol noson agored ar gyfer rhieni newydd a darpar rieni.

### **Ymweliadau**

Trefnwyd ymweliadau gan y dosbarthiadau yn unol a gofynion thematig cynllun Cornerstones. Mynychodd Blwyddyn 6 ganolfan breswyl Pentywyn.

### **Ymwelwyr a'r ysgol**

- Ymwelodd Dr. Byron Evans â'r ysgol yn rinwedd ei swydd fel llywodraethwr yn ystod Tymor yr Haf.
- Ymwelodd Mrs Ann James ( Cynghorydd Sialens y Sir ac ERW )
- Ymwelodd Stuart Jacob (Cynghorydd Gwyddoniaeth ERW)
- Ymweliad Catrin Rees Prif Swyddog Ysgolion Iach.
- Ymweliad gan aelodau'r cyngor cymunedol.
- Cynhaliodd y plant blwyddyn 5 a 6 'Play in a Day.'
- Derbyniodd blant ym mlwyddyn 3-6 hyfforddiant ' gweithio fe allan'
- Bu Sian Wyn Davies yn darparu gwersi rhesymu mathemategol trwy gyfrwng y Gymraeg i blant o Flynyddoedd 1 a 2

- Ymweliad PC Ruth a PCSO Lloyd a'r ysgol ar amryw achlysur er mwyn siarad a'r plant yn ystod y Gwasanaeth ac yn y gwersi ABCh.
- Ymwelodd Hayley Lewis y llysgenhadon Chwaraeon.
- Buodd Mrs. Carys Bryer, nyrs yr ysgol yn siarad a phlant o Flwyddyn 6.
- Ymwelodd Mrs. Adele Christopher, Seicolegydd Addysg a'r ysgol.
- Derbyniodd blant blwyddyn 5 a 6 rhestr o wersi wrth Richard Morton (Bible Explorers)

### **Cynnydd tuag at cyflawni'r nodau yn y Campau a Llwyddiannau yn y Campau**

Medda'r ysgol gwricwlwm eang a chytbwys yn y Campau ac Ymarfer Corff, sy'n ymdrin yn bendant â datblygu sgiliau. Mae timau'r ysgol wedi cystadlu mewn niferoedd o gystadleuthau.

- Cymerodd yr ysgol rhan ym Mhencampwriaethau Rhedeg Traws Gwlad Sir Gaerfyrddin a'r Tair Sir.
- Cymerodd y disgyblion rhan mewn Gwyl criced yn Llangennech
- Cymerodd y tîm rygbi rhan yn nhwramaint Introteach ym mharc y Sgarlets.
- Cymerodd Blwyddyn 5 a 6 rhan yng nghystadleuaethau rygbi , pêl-rwyd a phel- droed yr Urdd ysgolion Llanelli.
- Cymerodd y plant rhan ym Mabolgampau'r Carnifal yn ystod tymor yr Haf.
- Derbyniodd William Jones a Harley Davies hyfforddiant: llysgenhadon chwaraeon

### **Cymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRA)**

Diolchwn o galon unwaith eto i'r Gymdeithas am godi swm sylweddol o arian yn ystod 2017-18 Bu'r Wyl Aeaf a phob disco hanner tymor yn dra llwyddiannus.

Estynnwn ein diolch diffuant i bawb a gefnogodd yn ystod y flwyddyn.

**Mae gennyn gyfrif Trydar byw lle cewch lawer o wybodaeth yn ymwneud a'r ysgol.**

- <https://twitter.com/YsgolyrHendy>



### **Clwb Brecwast**

Mae'r Clwb ar agor rhwng 8.00 ac 8.35. Ar gyfer diogelwch y plant, mae'n rhaid i bob plentyn gael ei lofnodi mewn gan oedolyn.

### **Gwyliau'r ysgol:**



## CYNGOR SIR CAERFYRDDIN CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

### TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL - BLWYDDYN ACADEMAIDD 2018/2019

Gwyliau Hanner Tymor					
Tymor	Dechrau'r Tymor	Dechrau	Diwedd	Diwedd Tymor	Dyddiau
<b>Hydref 2018</b>	Dydd Mawrth 4ydd Medi	Dydd Llun 29ain Hydref	Dydd Gwener 2il Tachwedd	Dydd Gwener 21ain Rhagfyr	74
<b>Gwanwyn 2019</b>	Dydd Llun 7fed Ionawr	Dydd Llun 25ain Chwefror	Dydd Gwener 1af Mawrth	Dydd Gwener 12fed Ebrill	65
<b>Haf 2019</b>	Dydd Mawrth 30ain Ebrill	Dydd Llun 27ain Mai	Dydd Gwener 31ain Mai	Dydd Llun 22ain Gorffennaf	54
Dyddiau HMS Penodol - Dydd Llun, Medi 3ydd, 2018 Dydd Llun, Ebrill 29ain, 2019.					2
<b>Cyfanswm</b>					<b>195</b>

O.N. Gwener y Groglith - 19eg Ebrill 2019  
Gŵyl Fai - 6ed Mai 2019

### SCHOOL TERMS AND HOLIDAYS - ACADEMIC YEAR 2018/2019

Half Term Holiday					
Term	Term Begins	Begins	Ends	Term Ends	Days
<b>Autumn 2018</b>	Tuesday 4 <sup>th</sup> September	Monday 29 <sup>th</sup> October	Friday 2 <sup>nd</sup> November	Friday 21 <sup>st</sup> December	74
<b>Spring 2019</b>	Monday 7 <sup>th</sup> January	Monday 25 <sup>th</sup> February	Friday 1 <sup>st</sup> March	Friday 12 <sup>th</sup> April	65
<b>Summer 2019</b>	Tuesday 30 <sup>th</sup> April	Monday 27 <sup>th</sup> May	Friday 31 <sup>st</sup> May	Monday 22 <sup>nd</sup> July	54
Designated INSET Days - Monday, 3 <sup>rd</sup> September 2018 Monday, 29 <sup>th</sup> April 2019.					2
<b>Total</b>					<b>195</b>

N.B. Good Friday - 19<sup>th</sup> April 2019  
May Day - 6<sup>th</sup> May 2019

*Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgîl gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.*

*Please note that this calendar is subject to any changes that may arise as a result of government policy decisions. Carmarthenshire County Council does not accept liability for any losses incurred in respect of altered holiday arrangements following such changes.*

Cawson ni amryw o geisiadau oddi wrth rieni yn gofyn am wybodaeth am wyliau'r ysgol ar gyfer y dyfodol. Cewch rhestr sydd yn dangos y gwyliau ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf

ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Gweler y manylion am ddyddiadau gwyliau 2018-19 a dyddiadau dros dro 2019-20 ar y wefan isod:

<http://www.carmarthenshire.gov.wales/home/residents/education-schools/school-term-dates/#.Vd65pcvltMs>

**Canlyniadau 2017-18**

## Cyfnod Sylfaen:

### Adroddiad Cymharol/Dilysiad yr Ysgol 2018 (Diwedd y Cyfnod Sylfaen - Disgyblion)



(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)

Sir Gaerfyrddin  
Hendy C.P. School

		N	D	W	1	2	3	4	5	6	A
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	3.8	46.2	50.0	0.0
	Cymru	0.1	0.4	0.3	0.2	0.4	0.9	3.1	33.3	61.2	0.1
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg)	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	11.1	55.6	33.3	0.0
	Cymru	0.0	0.2	0.1	0.1	0.2	0.9	7.7	52.8	38.0	0.0
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	23.5	64.7	11.8	0.0
	Cymru	0.1	0.4	0.4	0.2	0.5	1.6	8.6	50.0	37.9	0.2
Datblygiad mathemategol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	11.5	57.7	30.8	0.0
	Cymru	0.1	0.4	0.3	0.2	0.3	1.3	7.2	51.5	38.6	0.1

#### Meysydd Dysgu Dewisol:

Datblygiad creadigol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Datblygiad corfforol	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Datblygu'r Gymraeg	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0

DCS \*\*

Ysgol	80.8
Cymru	87.3

### Adroddiad Cymharol/Dilysiad yr Ysgol 2018 (Diwedd y Cyfnod Sylfaen - Disgyblion)



#### Nodiadau

N: Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwysio

D: Datgymhwyswyd o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996, a weithredit bellach drwy adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002.

W: Gweithio tuag at Ddeiliant 1 y Cyfnod Sylfaen.

A: Perfformiad yn uwch na Deiliant 6 y Cyfnod Sylfaen.

- : Nid yw'n union sero, ond yn llai na 0.05

\* : Mae'r cohort yn llai na phump neu ni ellir ei gynnwys am resymau cyfrinachedd

\*\* : Wedi cyflawni'r deilliannau a ddisgwyliwyd yn y canlynol "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Gymraeg)" neu "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)", "Datblygiad mathemategol", a "Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol".

Mae'r data cymharol cenedlaethol yn cyfeirio at 2017

## Cyfnod Allweddol 2:

### Adroddiad Cymharol/Dilysiad yr Ysgol 2018 (CA2 - Disgyblion)



(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)  
Sir Gaerfyrddin  
Hendy C.P. School

		N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6+	4+
<b>Saesneg</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.3	52.2	43.5	0.0	95.7
	Cymru	0.1	0.4	0.1	0.1	0.2	0.4	1.4	6.3	46.4	43.0	1.7	91.1
Llafaredd	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.3	52.2	43.5	0.0	95.7
	Cymru	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.4	1.2	6.2	45.4	44.0	2.0	91.4
Darllen	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.3	52.2	43.5	0.0	95.7
	Cymru	0.1	0.4	0.1	0.1	0.2	0.4	1.4	6.8	45.0	43.6	1.9	90.5
Ysgrifennu	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	4.3	73.9	21.7	0.0	95.7
	Cymru	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.5	1.8	10.3	50.0	35.2	1.4	86.6
<b>Cymraeg Iaith Gyntaf</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	63.6	36.4	0.0	100.0
	Cymru	0.1	0.1	0.0	0.0	0.0	0.3	1.1	6.8	50.1	39.7	1.8	91.6
Llafaredd	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	54.5	45.5	0.0	100.0
	Cymru	0.1	0.1	0.0	0.0	0.0	0.3	0.9	6.3	48.7	41.6	2.0	92.3
Darllen	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	63.6	36.4	0.0	100.0
	Cymru	0.1	0.1	0.0	0.0	0.0	0.3	1.1	7.6	48.3	40.6	1.9	90.8
Ysgrifennu	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	81.8	18.2	0.0	100.0
	Cymru	0.1	0.1	0.0	0.0	0.0	0.4	1.7	11.0	53.1	32.3	1.4	86.8
<b>Mathemateg</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	56.5	43.5	0.0	100.0
	Cymru	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.4	1.2	6.0	44.6	45.3	1.8	91.6
<b>Gwyddoniaeth</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	56.5	43.5	0.0	100.0
	Cymru	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.3	1.1	5.5	45.8	46.2	0.2	92.2
<b>Cymraeg Ail Iaith</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	16.7	25.0	58.3	0.0	83.3
	Cymru	0.3	0.7	0.2	0.2	0.2	1.0	2.5	14.2	54.6	26.0	0.3	80.9

Dangosydd Pwnc Craidd \*\*

Ysgol	95.7
Cymru	89.5

### Adroddiad Cymharol/Dilysiad yr Ysgol 2018 (CA2 - Disgyblion)



#### Nodiadau

N: Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwysio  
D: Datgymhwyswyd o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996, a weithredit bellach drwy adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002.  
NCO1 : Deiliant 1 Cwricwlwm Cenedlaethol  
NCO2 : Deiliant 2 Cwricwlwm Cenedlaethol  
NCO3 : Deiliant 3 Cwricwlwm Cenedlaethol  
Noder bod NCO1, NCO2 a NCO3 wedi disodli lefel W mewn blynyddoedd blaenorol

- : Nid yw'n union sero, ond yn llai na 0.05

\* : Mae'r cohort yn llai na phump neu ni ellir ei gynnwys am resymau cyfrinachedd

\*\* : Wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd

Mae'r data cymharol cenedlaethol yn cyfeirio at 2017

**Adroddiad Cymharol/Dilysiad yr Ysgol 2018 (CA2 - Disgyblion)**

(Tabl 2 o 2 - NIFEROEDD DISGYBLION)

**Sir Gaerfyrddin**

Hendy C.P. School

	N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6+	Nifer y disgyblion
<b>Saesneg</b>	0	0	0	0	0	0	0	1	12	10	0	23
Llafaredd	0	0	0	0	0	0	0	1	12	10	0	23
Darllen	0	0	0	0	0	0	0	1	12	10	0	23
Ysgrifennu	0	0	0	0	0	0	0	1	17	5	0	23
<b>Cymraeg Iaith Gyntaf</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	7	4	0	11
Llafaredd	0	0	0	0	0	0	0	0	6	5	0	11
Darllen	0	0	0	0	0	0	0	0	7	4	0	11
Ysgrifennu	0	0	0	0	0	0	0	0	9	2	0	11
<b>Mathemateg</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	13	10	0	23
<b>Gwyddoniaeth</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	13	10	0	23
<b>Cymraeg Ail Iaith</b>	0	0	0	0	0	0	0	2	3	7	0	12

Danqosydd Pwnc Craidd \*\*

Ysgol 22

Nifer y disgyblion = 23

**Nodiadau**

N: Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwysio

D: Datgymhwyswyd o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996, a weithredit bellach drwy adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002.

NCO1 : Deilliant 1 Cwricwlwm Cenedlaethol

NCO2 : Deilliant 2 Cwricwlwm Cenedlaethol

NCO3 : Deilliant 3 Cwricwlwm Cenedlaethol

Noder bod NCO1, NCO2 a NCO3 wedi disodli lefel W mewn blynyddoedd blaenorol



**School Comparative/Validation 2017 (KS2 - Pupils)**



(Table 1 of 2 - PERCENTAGES)

**Carmarthenshire**

Hendy C.P. School

		N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6+	4+
<b>English</b>	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.1	46.4	42.9	3.6	92.9
	Wales	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.5	1.6	6.8	48.4	40.6	1.4	90.3
Oracy	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.1	53.6	35.7	3.6	92.9
	Wales	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.5	1.4	6.9	47.1	41.7	1.7	90.5
Reading	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.1	42.9	50.0	0.0	92.9
	Wales	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.5	1.5	7.5	46.4	41.6	1.7	89.7
Writing	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	3.6	3.6	50.0	39.3	3.6	92.9
	Wales	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.5	2.0	11.3	51.5	32.5	1.3	85.4
<b>Welsh First Language</b>	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	42.9	57.1	0.0	100.0
	Wales	-	0.2	-	0.0	0.0	0.3	1.2	7.4	52.8	36.6	1.4	90.8
Oracy	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	42.9	57.1	0.0	100.0
	Wales	-	0.2	-	0.0	0.0	0.3	1.1	6.4	51.4	39.1	1.5	92.0
Reading	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	35.7	64.3	0.0	100.0
	Wales	-	0.2	-	0.0	0.0	0.3	1.3	8.3	50.7	37.4	1.7	89.8
Writing	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	42.9	57.1	0.0	100.0
	Wales	-	0.2	-	0.0	-	0.3	1.6	12.3	55.5	28.8	1.2	85.5
<b>Mathematics</b>	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.1	35.7	57.1	0.0	92.9
	Wales	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.4	1.4	6.5	47.8	41.5	1.6	91.0
<b>Science</b>	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	3.6	42.9	53.6	0.0	96.4
	Wales	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.4	1.3	5.8	49.2	42.3	0.2	91.7
<b>Welsh Second Language</b>	School	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.1	28.6	64.3	0.0	92.9
	Wales	0.1	0.6	0.3	0.2	0.1	1.0	2.7	17.1	55.5	22.0	0.4	77.9

Core Subject Indicator \*\*

School	92.9
Wales	88.6



## CYNGOR SIR CAERFYRDDIN CARMARTHESHIRE COUNTY COUNCIL

### TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL - BLWYDDYN ACADEMAIDD 2018/2019

		Gwyliau Hanner Tymor			
Tymor	Dechrau'r Tymor	Dechrau	Diwedd	Diwedd Tymor	Dyddiau
<b>Hydref 2018</b>	Dydd Mawrth 4ydd Medi	Dydd Llun 29ain Hydref	Dydd Gwener 2il Tachwedd	Dydd Gwener 21ain Rhagfyr	74
<b>Gwanwyn 2019</b>	Dydd Llun 7fed Ionawr	Dydd Llun 25ain Chwefror	Dydd Gwener 1af Mawrth	Dydd Gwener 12fed Ebrill	65
<b>Haf 2019</b>	Dydd Mawrth 30ain Ebrill	Dydd Llun 27ain Mai	Dydd Gwener 31ain Mai	Dydd Llun 22ain Gorffennaf	54
Dyddiau HMS Penodol - Dydd Llun, Medi 3ydd, 2018 Dydd Llun, Ebrill 29ain, 2019.					2
<b>Cyfanswm</b>					<b>195</b>

O.N. Gwener y Groglith - 19eg Ebrill 2019  
Gŵyl Fai - 6ed Mai 2019

### SCHOOL TERMS AND HOLIDAYS - ACADEMIC YEAR 2018/2019

		Half Term Holiday			
Term	Term Begins	Begins	Ends	Term Ends	Days
<b>Autumn 2018</b>	Tuesday 4 <sup>th</sup> September	Monday 29 <sup>th</sup> October	Friday 2 <sup>nd</sup> November	Friday 21 <sup>st</sup> December	74
<b>Spring 2019</b>	Monday 7 <sup>th</sup> January	Monday 25 <sup>th</sup> February	Friday 1 <sup>st</sup> March	Friday 12 <sup>th</sup> April	65
<b>Summer 2019</b>	Tuesday 30 <sup>th</sup> April	Monday 27 <sup>th</sup> May	Friday 31 <sup>st</sup> May	Monday 22 <sup>nd</sup> July	54
Designated INSET Days - Monday, 3 <sup>rd</sup> September 2018 Monday, 29 <sup>th</sup> April 2019.					2
<b>Total</b>					<b>195</b>

N.B. Good Friday - 19<sup>th</sup> April 2019  
May Day - 6<sup>th</sup> May 2019

*Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw gollodion yn sgîl gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.*

*Please note that this calendar is subject to any changes that may arise as a result of government policy decisions. Carmarthenshire County Council does not accept liability for any losses incurred in respect of altered holiday arrangements following such changes.*